# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mawrth 2012**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Selwyn Williams (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr E. G. Davies, W. T. Hughes, Eric Jones, Peter S. Rogers, J. P. Williams |
| **WRTH LAW**: | Cyfarwyddwr Corfforaethol (Yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol) – Ar gyfer Eitem 7<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) – Ar gyfer eitemau 4 & 5<br>Pennaeth Gwasanaeth (Uned Darparu Mewnol) – Ar gyfer eitem 7<br>Rheolydd Gwasanaethau Cyfreithiol – Ar gyfer eitem 3<br>Rheolydd Gwasanaethau Adnoddau Dynol (CE) – Ar gyfer eitem 7<br>Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (TB) – Ar gyfer eitem 6<br>Arweinydd Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (SN) - Ar gyfer eitem 6.<br>Swyddog Cyswllt a Chymorth Sgriwtini (CT)<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr D. R. Hughes, W. I. Hughes, R. Dylan Jones, Eric Roberts, H. W. Thomas, Ieuan Williams.<br>Mr. Keith Roberts<br>Pennaeth Gwasanaeth (Addysg)<br>Ms Beverley Symonds – Rheolydd Sgriwtini. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr K. P. Hughes, G. O. Parry MBE. |

---

## 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

## 2 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2012.

Cyfeiriodd y Cynghorydd J. P. Williams at sylwadau'r Swyddog Adran 151 Dros Dro nad oedd Adolygiad Cyllideb Sail yn opsiwn oherwydd materion capasiti. Roedd y Cynghorydd Williams yn credu bod y Comisiynwyr hefyd yn cefnogi cynnal Adolygiad Cyllideb Sail ac roedd yn bryderus am sylwadau'r Swyddog.

Esboniodd y Swyddog Cyswllt a Chymorth Sgriwtini bod y Swyddog Adran 151 Dros Dro wedi egluro bod cynnal Adolygiad Cyllideb Sail yn waith llafurddwys iawn ac, yn anffodus, nid oedd digon o gapasiti yn y Gwasanaeth Cyllid i fedru gwneud y gwaith hwnnw ar hyn o bryd.

## 3 CYNIGION AR GYFER CYDWEITHIO YN Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL

Cyflwynwyd – adroddiad diweddaru gan y Rheolydd Gwasanaethau Cyfreithiol mewn perthynas â'r uchod. Adroddwyd ar y mater hwn i'r Pwyllgor yn y cyfarfod ar 6 Rhagfyr 2011 ac mae'r adroddiad yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cynnydd a datblygiadau.

Dywedodd y Rheolydd Gwasanaethau Cyfreithiol, yn dilyn trafodaethau a gwaith ymchwil, bod y chwe awdurdod yng Ngogledd Cymru wedi dod i gasgliad ynghylch prosiect cydweithio a fyddai â'r amcanion canlynol:-

- Strwythur gwasanaethau cyfreithiol a fydd yn darparu gwasanaeth cyfreithiol addas i'r pwrpas, cynaliadwy ac o safon uchel i'r chwe awdurdod am y pris gorau i'r pwrs cyhoeddus.
- Effeithlonrwydd sy'n sicrhau arbedion.
- Gostwng y swm mae'r awdurdodau yn ei wario ar wasanaethau cyfreithiol (yn bennaf drwy leihau gwariant ar gymorth cyfreithiol allanol), a
- Cynnal neu wella boddhad cwsmeriaid trwy gydol y cyfnod o newid.

Bydd y prosiect cydweithredol hwn yn fenter esblygol y bydd rhaid i bob awdurdod ymrwymo iddi am y tymor hir er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf. Er mai'r nod cychwynnol yw gostwng gwariant ar gymorth cyfreithiol allanol, bydd y prosiect yn edrych, yn y tymor hwy, i ddatblygu'r gwasanaethau cyfreithiol y mae'n eu cynnig i'w gleientiaid. Er enghraifft, gellid gwneud hyn yn rhannol trwy sicrhau fod pob awdurdod lleol yn llenwi swyddi cyfreithiol gweigion yn unol â gofynion y chwe awdurdod yn hytrach na gofynion yr awdurdod sy'n cyflogi yn unig. Mae'r prosiect yn cael ei gyfarwyddo gan Dîm Prosiect ac arno Reolwyr ac Uwch Gyfreithwyr o bob un o'r chwe awdurdod. Mae'r Tîm Prosiect yn atebol i Fwrdd Prosiect ac arno Benaethiaid Gwasanaethau Cyfreithiol o bob un o'r chwe awdurdod. Penododd y Tîm Prosiect Reolwr Prosiect gydag arian grant a gafwyd gan CLlLC. Mae ei waith a'i gefnogaeth ef wedi bod yn amhrisiadwy o ran y cynnydd a wnaed hyd yma. Bydd yn aros gyda'r prosiect hyd at ddiwedd mis Ebrill 2012. Rhagwelir y bydd rhannau cyntaf y prosiect yn cael eu lansio yn Ebrill 2012. Fodd bynnag, bydd y prosiect yn fenter tymor hir gyda'r nod o ddatblygu, dros amser, wasanaeth cyfreithiol cynhwysfawr, gwydn ac o safon uchel ar gyfer y chwe awdurdod lleol.

Roedd y tasgau yr oedd staff cyfreithiol yn ymgymryd â nhw mewn cydweithrediad gyda'r Rheolwr Prosiect wedi eu rhestru yn yr adroddiad.

Adroddwyd bod y prosiect yn edrych i weithredu'r newidiadau / cynigion isod o fis Ebrill 2012:-

- System a fydd yn caniatáu i waith cyfreithiol penodol mewn un awdurdod gael ei wneud gan gyfreithwyr mewn awdurdodau eraill yn y rhanbarth heb orfod allanoli'r gwaith hwnnw i'r sector preifat. Bydd hyn yn rhatach i'r Cyngor sydd angen y gwaith ac yn creu incwm i'r Cyngor sy'n ei wneud. Gwelwyd hyn fel cam cyntaf y prosiect arfaethedig i gydweithio.
- Gweithredu'r rhaglen hyfforddi ar gyfer y GDA yn y cyfnod hyd at Awst 2012. Wedyn, gofynnir i'r GDA gyfarfod yn rheolaidd a datblygu eu rhaglenni gwaith eu hunain gan gynnwys hyfforddiant a datblygu a safoni arferion gorau yn eu meysydd gwaith penodol.
- Cyflwyno cais pellach am gymorth grant i gefnogi gwaith rheoli prosiect am y ddwy flynedd nesaf. Bydd datblygu'r prosiect cydweithio ymhellach ac ar gyfer y dyfodol yn ddibynnol ar sicrhau cyllid ar gyfer rheoli'r prosiect. Heb reolwr penodol ar gyfer y prosiect, mae'n annhebygol iawn y gellir symud ymlaen. Nid oes gan y chwe adain gyfreithiol yr adnoddau mewnol ar hyn o bryd i gyllido swydd rheolwr prosiect ac nid oes gan y staff cyfredol yr amser i reoli'r prosiect. Bydd datblygu ail ran y prosiect yn dibynnu ar sicrhau adnoddau i reoli'r prosiect.
- Bydd ail ran y prosiect yn cynnwys edrych ar ddatblygu'r fenter gydweithredol yn endid y mae modd ei marchnata o ran darparu gwasanaethau cyfreithiol i gyrff cyhoeddus eraill yng Ngogledd Cymru ac edrych ar opsiynau a gofynion rheoli achos ar gyfer y fenter gydweithredol.

Materion a godwyd gan yr Aelodau :-

- Mae'r arbedion a ddaw yn sgil y prosiect yn weddol fychan. Ymatebodd y Rheolydd Gwasanaethau Cyfreithiol y rhagwelir y gall yr arbedion fod o gwmpas £300k o ran gwaith cyfreithiol allanol ar gyfer y rhanbarth. Fodd bynnag, bydd y cydweithio yn gyfle i gynnig arbenigedd o fewn meysydd penodol yn yr awdurdodau lleol heb orfod gwario ar gyfreithwyr allanol.
- Beth fyddai'n digwydd pe bai un o'r awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru yn penderfynu tynnu allan o'r prosiect ar ôl ychydig o flynyddoedd? Ymatebodd y Rheolydd Gwasanaethau Cyfreithiol mai'r nod oedd creu prosiect lle byddai'n anfanteisiol i dynnu allan ohono. Dywedwyd bod raid i bob awdurdod ymrwymo i'r prosiect am gyfnod. Derbyniwyd, yn y pen draw, bod rhaid i bob Cyngor gadw'r hawl i dynnu allan os oedd yn teimlo bod angen gwneud hynny, ond byddai'r prosiect yn ceisio creu endid lle byddai'n llawer gwell i bob Cyngor gymryd rhan ynddo na thynnu allan.
- Gofynnwyd a ellid arbed cyflogaeth staff cyfreithiol o fewn y prosiect hwn. Roedd y Rheolydd Gwasanaethau Cyfreithiol yn rhagweld y byddai pob awdurdod, yn y dyfodol ac fel y cyfyd yr angen, yn recriwtio efallai yn unol ag anghenion y fenter yn ei chyfanrwydd yn hytrach nac ar gyfer anghenion uniongyrchol yr awdurdod sy'n cyflogi. Gallai hynny helpu i ddiogelu swyddi yn y dyfodol. Mae creu gwydnwch ac arferion gorau hefyd yn rhan hollbwysig o'r fenter.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 4 ADRODDIAD Y GWEITHGOR TREFNIADAU SGRIWTINI PARTNERIAETHOL

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Rheolydd Sgriwtini mewn perthynas â'r uchod.

Adroddwyd bod dau Aelod o Bwyllgor Sgriwtini Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn a dau o Brif Bwyllgor Sgriwtini Cyngor Gwynedd wedi eu penodi i fod yn Aelodau o'r Gweithgor Trefniadau Sgriwtini ar y Cyd. Pwrpas y Gweithgor oedd paratoi model manwl i sgriwtineiddio gwaith partneriaeth Ynys Môn a Gwynedd a'i gyflwyno i'r Cyd-Fwrdd Gwasanaethau Lleol.

Mae Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn gyfrifol am arwain ar sefydlu trefniadau ar gyfer rhesymoli partneriaethau. Penderfynwyd ymgynghori ar y ffordd orau ymlaen ar lefel isranbarthol. Y nod yw sefydlu patrwm a fydd yn hyrwyddo cyd-gomisiynu a chyd-lywodraethu o safon uchel yn y meysydd isod:-

- Y Strategaeth Gymunedol
- Bwrdd Gwasanaethau Lleol
- Iechyd, Gofal a Lles
- Plant a Phobl Ifanc
- Diogelwch Cymunedol

Esboniodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) y byddai'r partneriaethau cyfredol yn dod i ben yn eu ffurf bresennol ac y bydd partneriaeth lefel uchel yn cael ei sefydlu. Bydd yn gosod cyfeiriad strategol ar gyfer anghenion lleol a bydd rhai o'r anghenion yn gyffredin i'r ddwy sir. Bydd mecanwaith yn cael ei sefydlu gydag un tîm cymorth. Nododd mai'r nod yw bod y model newydd hwn yn dod yn weithredol mewn 6 mis. Pwysleisiodd bod angen gwneud gwaith ar y strwythur staffio.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y cwestiwn yn yr adroddiad mewn perthynas ag unrhyw dystiolaeth fod statws yr iaith Gymraeg yn cael ei ddiogelu yn yr holl drafodaethau partneriaeth. Ystyriwyd bod yr iaith Gymraeg a ddefnyddir gan blant ysgol yn dirywio a bod angen i rieni fod yn ymwybodol o'r sefyllfa ac annog eu plant i siarad Cymraeg.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a'r argymhellion ynddo.**

## 5 STRATEGAETH ADNEWYDDIAD DEMOCRATAIDD

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) mewn perthynas â'r uchod.

Adroddwyd bod y Bwrdd Comisiynwyr a gynhaliwyd ar 5 Medi 2011 wedi penderfynu cymeradwyo Strategaeth Adnewyddiad Democrataidd mewn ymateb i Gyfarwyddyd a gafwyd gan Weinidogion Cymru ym Mawrth 2011 fod rhaid i'r Awdurdod ddatblygu a gweithredu Strategaeth sy'n hyrwyddo Adnewyddiad Democrataidd. Roedd copi o'r Strategaeth ynghlwm wrth yr adroddiad yn Atodiad 1.

Mae'r Strategaeth yn cynnwys sawl ffrwd gwaith allweddol sy'n rhan o daith wella ehangach y Cyngor. Adroddir ar gynnydd o ran monitro'r cynllun gweithredu i'r Bwrdd Gwella. Roedd Atodiad 2 yr adroddiad yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf i adlewyrchu cynnydd a wnaed hyd at ddiwedd Mawrth 2011.

Nododd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) fod y Strategaeth yn canolbwyntio, yn y lle cyntaf, ar baratoi ar gyfer etholiadau lleol 2012. Fodd bynnag, mae amgylchiadau bellach wedi newid yn dilyn cadarnhad bod yr etholiadau wedi eu haildrefnu ar gyfer Mai 2013 a disgwylir am gynigion terfynol y Comisiwn Ffiniau. O'r herwydd, bydd angen adolygu'r cynllun gweithredu strategol a'r rhaglen waith gysylltiedig.

Materion a godwyd gan yr Aelodau:-

- Roedd yr Aelodau yn ystyried bod yr adroddiad yn gamarweiniol oherwydd bod y ganran o bobl sy'n pleidleisio yn Ynys Môn yn un o'r uchaf yn y wlad. Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) mai'r her yw cael pobl ifanc i droi allan i bleidleisio; mae hwn yn fater cyffredin trwy'r wlad.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at yr angen i ymgysylltu gyda dinasyddion yn y gymuned. Dywedwyd bod y nifer sy'n mynychu gweithgareddau/sesiynau ymgynghori a drefnir gan y Cyngor mewn ardaloedd trefol yn siomedig. Mynegwyd y dylai'r Cyngor ystyried ymweld ag ardaloedd gwledig oherwydd mae'n ymddangos fod pobl yn yr ardaloedd hynny'n fwy parod i fynychu digwyddiadau o'r fath. Nododd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) fod gwersi wedi eu dysgu yn hyn o beth. Nododd hefyd y bydd angen i'r Awdurdod fanteisio ar weithgareddau lleol, fel y Farchnad Ffermwyr fisol ym Mhorthaethwy ac archfarchnadoedd lleol i ymgysylltu'n helaethach gyda'r gymuned o ran ymgynghori ar faterion penodol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**6 Y POLISI IECHYD A DIOGELWCH CORFFORAETHOL**

Cyflwynwyd - adroddiad gan yr Arweinydd Tîm, y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, mewn perthynas â'r uchod.

Adroddwyd bod yr awdurdod wedi ei strwythuro fel bod y Pwyllgor Gwaith yn rhoi cyfeiriad iddo o ran iechyd a diogelwch, fel gyda disgwyliadau perfformiad eraill. Dylai pob gwasanaeth fonitro iechyd a diogelwch a chodi materion yng nghyfarfodydd Tîm y Gwasanaethau. Mae'r Tîm Iechyd a Diogelwch yn cynnal cyfarfodydd cyswllt misol a fynychir gan ymgynghorwyr iechyd a diogelwch, cynrychiolwyr Undebau, y Cyfarwyddwr Corfforaethol (yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol) a'r Comisiynydd ar gyfer cydymffurfiaeth. Mae'r Aelod Portffolio ar gyfer Iechyd a Diogelwch hefyd yn cael gwahoddiad bellach i'r cyfarfodydd. Mae'r cyfarfod cyswllt yn rhoi atborth ar drefniadau iechyd a diogelwch, yn adrodd ar ystadegau damweiniau ac yn rhoi gwybodaeth ddiweddaraf ar ddatblygiadau yn y maes iechyd a diogelwch, sef datblygiadau mewnol a deddfwriaethol.

O 1 Ebrill 2012 ni fydd yr Awdurdod Gweithredol ar gyfer Iechyd a Diogelwch bellach yn archwilio awdurdodau lleol yn rhagweithiol. Ni fydd yr arolygwyr ond yn ymweld ag awdurdodau lleol os cafwyd cwyn neu os yw rhywbeth penodol wedi digwydd neu ddamwain wedi ei dwyn i'w sylw. Roedd copi o'r Cynllun Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ynghlwm wrth yr adroddiad.

Canmolwyd gwaith y Tîm Iechyd a Diogelwch gan yr Aelodau ac roeddent yn ystyried bod y Cynllun Gweithredu yn drwyadl iawn. Gofynnodd yr Aelodau pa mor hyderus oedd y Swyddogion y byddai'r systemau iechyd a diogelwch a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn ddigon cadarn i sicrhau na fyddai'r polisi byth yn methu. Ymatebodd yr Arweinydd Tîm na allai unrhyw system warantu hynny. Y system fonitro y mae'r Tîm Iechyd a Diogelwch a Rheolwyr Adrannol yn cydymffurfio â hi yw'r prif arf ar gyfer sicrhau bod y system Iechyd a Diogelwch yn gadarn.

Yn dilyn trafodaethau **PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chanmol y Tîm Iechyd a Diogelwch am ei waith ardderchog.**

**7 ADRODD AR ABSENOLDEB SALWCH YN YR AWDURDOD**

Cyflwynwyd - Adroddiad diweddaru gan y Rheolydd Gwasanaethau Adnoddau Dynol mewn perthynas â'r uchod. Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion am absenoldebau salwch yn yr awdurdod hyd at fis Tachwedd 2011, gyda'r wybodaeth wedi ei thorri i lawr ar draws yr amryfal Adrannau a oedd ar hyn o bryd yn rhagori ar eu targedau ar gyfer absenoldeb salwch fesul gweithiwr/gweithwraig.

Nodwyd bod y feddalwedd TG newydd ar gyfer integreiddio'r systemau Cyflogau ac Adnoddau Dynol (Northgate) yn symud ymlaen. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith wedi ei gwblhau ac mae hynny'n cael effaith ar argaeledd data dibynadwy yn y maes salwch. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol) fod monitro salwch yn hanfodol ac, ar hyn o bryd, oherwydd problemau gyda'r data a roddir yn y system Northgate nid yw'r data cywir ar gael ar gyfer salwch ac mae hynny'n cael effaith ar y wybodaeth yr adroddir arni. Dywedodd bod angen cymharu lefelau salwch o fewn adeiniau penodol gyda'r lefelau ar draws awdurdodau eraill. Mae'n rhan o gyfrifoldebau dyddiol rhai swyddi i ddelio gyda sefyllfaoedd sy'n peri straen.

Nododd y Pennaeth Gwasanaeth (Uned Ddarparu) fod gwasanaeth Cwnsela yn cael ei gynnig i staff sydd yn absennol o'u gwaith oherwydd straen. Mae monitro lefelau salwch yn hollbwysig i sicrhau bod

adrannau'n cyflawni eu dyletswyddau i'r cyhoedd, er y pwysleisiwyd unwaith yn rhagor bod problem gyda'r wybodaeth ynghylch absenoldebau salwch yr adroddir arni gan y system Northgate.

Trafododd yr Aelodau y gwahanol fathau o absenoldeb salwch a gofnodir ar y nodiadau 'Ffit i Weithio' a gyflenwir gan Feddygon Teulu ynghyd â'r angen i ostwng lefelau salwch yn yr awdurdod. Ystyriwyd bod angen datrys y broblem gyda'r meddalwedd TG (Northgate) ar fyrder i gael darlun gwell o'r lefelau salwch yn yr awdurdod.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 8 CEISIADAU GAN AELODAU I YSTYRIED EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI

Cyflwynwyd – adroddiad bod Cadeirydd y Pwyllgor hwn wedi cael dau gais ar wahân i gynnwys eitem ar gyfer Sgriwtini. Roedd y ceisiadau yn ymwneud â'r gyllideb arfaethedig a'r toriadau yn y gwasanaeth a gynigiwyd gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru.

Yn y Cyngor llawn ar 6 Mawrth 2012, cafwyd adroddiadau llafar gan yr Aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r Cyngor ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru. Penderfynodd y Cyngor Sir y byddai o fudd i'r ddau Awdurdod ddod gerbron y Pwyllgor Sgriwtini i roi rhagor o fanylion am eu toriadau cyllidebol a'r goblygiadau posib o ran staffio a'r goblygiadau i'r gwasanaeth.

Roedd yr Aelodau yn cytuno y dylid gofyn i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru ddod i gyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini yn y dyfodol ond pwysleisiwyd mai dim ond un neu ddau gynrychiolydd ddylai fynychu.

**PENDERFYNWYD**

- **Gofyn i gynrychiolydd o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru roi cyflwyniad ar y gyllideb arfaethedig a'r toriadau yn y gwasanaeth i gyfarfod o'r Pwyllgor hwn yn y dyfodol;**

- **Bod y Pwyllgor Sgriwtini Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol yn gofyn i Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru ddod i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol mewn perthynas â'r toriadau arfaethedig yn y gyllideb.**

**Y CYNGHORYDD SELWYN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**